

12 Mawrth 2015

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

Rheoli Amseroedd Aros Dewisol – Rhestr wirio ar gyfer byrddau iechyd y GIG



WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU



Cyflwyniad

- 1 Cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol ei adroddiad ar *Amseroedd Aros y GIG ar gyfer Gofal Dewisol yng Nghymru* ar 27 Ionawr 2015. Yn ôl yr adroddiad, er bod y rhan fwyaf o gleifion yn cael eu trin o fewn 26 wythnos, nid yw'r dull presennol yn darparu amseroedd aros isel cynaliadwy. Fodd bynnag, mae gan gynlluniau newydd y potensial i wella'r sefyllfa os cânt eu rhoi ar waith yn effeithiol. Gwelwyd bod byrddau iechyd wedi ei chael hi'n anodd cydbwysu targedau amseroedd aros gyda phwysau ariannol a gofynion capasiti, ond gallent wneud defnydd gwell o adnoddau presennol i drin mwy o gleifion trwy gynllunio'n well a gweithio mewn ffyrdd gwahanol.
- 2 Mae'r rhestr wirio hon yn amlinellu rhai o'r cwestiynau y dylai aelodau bwrdd y GIG fod yn eu gofyn er mwyn cael sicrwydd bod y bwrdd iechyd yn rheoli amseroedd aros yn effeithiol. Ar y cyfan, fy ddylai byrddau'r GIG geisio cael sicrwydd bod cynlluniau i wella amseroedd aros yn seiliedig ar ddealltwriaeth gadarn o'r canlynol:
 - a perfformiad presennol y bwrdd iechyd;
 - b y galw, nawr ac yn y dyfodol;
 - c nifer y staff sydd ar gael a chapasiti ffisegol arall;
 - ch goblygiadau ariannol;
 - d cyfleoedd i wneud defnydd gwell o gapasiti trwy ailystyried y ffyrdd mae gwasanaethau'n cael eu darparu a gwella effeithlonrwydd; ac
 - dd y gwersi allweddol o gynlluniau blaenorol ac ymdrechion i leihau amseroedd aros.
- 3 Rydym yn gobeithio y bydd y cwestiynau canlynol yn helpu byrddau cyrff y GIG i bennu a yw cynlluniau a gweithgareddau yn seiliedig ar y ddealltwriaeth gadarn honno.

Deall perfformiad ar gyfer eich cleifion a'ch preswylwyr

- 4 Mae *Amseroedd Aros y GIG ar gyfer Gofal Dewisol yng Nghymru – Adroddiad Technegol* yn darparu dadansoddiad manwl o berfformiad presennol ar draws pob bwrdd iechyd yng Nghymru, gan gynnwys arbenigeddau lle mae cleifion yn debygol o wynebu oedi hir. Ynghyd â'r prif adroddiad, mae'r adroddiad technegol yn archwilio rhai o'r ffactorau sy'n cyfrannu at oedi hir. Mae'r tabl isod yn amlinellu rhai o'r cwestiynau y gall Aelodau Byrddau'r GIG eu gofyn i sicrhau bod ganddynt ddealltwriaeth glir o'r perfformiad presennol mewn perthynas ag amseroedd aros a chynlluniau i wella perfformiad.

Y prif faterion	Cwestiynau allweddol i'w gofyn	Anogwyr a all eich helpu chi i ddeall y mater yn well
Ydych chi'n deall y perfformiad presennol?	Ydych chi'n gwybod sut rydych chi'n perfformio mewn perthynas â'r mesurau atgyfeirio am driniaeth fel darparwr ac fel comisiynydd?	Ydych chi'n gwybod faint o gleifion sy'n aros mwy na 26 wythnos a 36 wythnos: <ul style="list-style-type: none"> • Yn ôl arbenigedd? • Yn ôl safle neu ysbyty? • Ar gyfer pob claf sy'n byw yn eich ardal bwrdd iechyd? • Ar bob cam o'r llwybr cleifion? Ydych chi'n gwybod sut mae perfformiad wedi newid dros amser? Ydych chi'n gwybod yr amseroedd aros canolrifol a 95 canradd ar gyfer cleifion? Ydych chi'n gwybod sut mae'r perfformiad yn cymharu â byrddau iechyd eraill ledled Cymru?
	A oes gennych chi ddigon o wybodaeth fanwl i ddeall sut mae'r bwrdd iechyd yn perfformio ar gyfer grwpiau penodol o gleifion?	Ydych chi'n olrhain perfformiad mewn arbenigeddau lle mae yna berygl y gall iechyd cleifion ddirywio oherwydd oedi hir? Ydych chi'n gwybod faint mae cleifion 'brys' yn gorfod aros?
	Ydych chi'n deall profiadau cleifion o berfformiad eich bwrdd iechyd?	Ydych chi'n gwybod sut mae cleifion yn teimlo am faint o amser maen nhw'n gorfod aros? Ydych chi'n deall pa mor dda mae'ch bwrdd iechyd yn cyfathrebu â chleifion? A oes ganddyn nhw wybodaeth am faint o amser y gallan nhw ddisgwyl aros? Ydyn nhw'n deall goblygiadau canslo neu fethu apwyntiadau? Ydyn nhw'n teimlo eu bod yn cyfrannu at benderfyniadau ynglŷn â'u triniaeth? Yn y pen draw, a wnaeth y driniaeth wahaniaeth i ansawdd eu bywydau?

Deall y galw a'r capasiti

- 5 Mae ein hadroddiad yn nodi nad oes gan fyrddau iechyd lawer o wybodaeth am y galw am ofal dewisol, sy'n cyfyngu ar eu gallu i ddyrannu adnoddau'n gywir i drin cleifion o fewn targedau amseroedd aros. Yn ogystal, nid oes gan fyrddau iechyd ddealltwriaeth soffistigedig o'u capasiti eu hunain, sy'n golygu nad yw adnoddau presennol yn cael eu defnyddio cystal ag y gallent a'i bod hi'n anodd cynnal asesiad ymarferol i nodi lle mae'r bylchau. I asesu cynlluniau gofal dewisol byrddau iechyd, gall aelodau'r bwrdd ofyn y cwestiynau canlynol:

Y prif faterion	Cwestiynau allweddol i'w gofyn	Anogwyr a all eich helpu chi i ddeall y mater yn well
A yw cynlluniau'n seiliedig ar ddealltwriaeth gadarn o'r galw am ofal dewisol?	Ydych chi'n gwybod digon am batrymau'r atgyfeiriadau mae'r bwrdd iechyd yn eu derbyn?	<p>A oes gennych chi wybodaeth am nifer y cleifion sy'n cael eu hatgyfeirio am driniaeth? A yw'n cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Pob arbenigedd? • Atgyfeiriadau gan feddygon teulu a gweithwyr iechyd proffesiynol eraill megis optegwyr? • Gwybodaeth am oedran cleifion a chymhlethdod eu cyflwr? • Nifer yr atgyfeiriadau 'brys'? <p>Ydych chi'n gwybod a yw nifer yr atgyfeiriadau wedi newid dros amser?</p> <ul style="list-style-type: none"> • A yw nifer yr atgyfeiriadau ar gyfer rhai arbenigeddau yn cynyddu? • A yw nifer yr atgyfeiriadau 'brys' wedi cynyddu? <p>A oes gennych chi amcanestyniadau yn dangos sut mae nifer yr atgyfeiriadau yn debygol o newid yn y dyfodol?</p>
	A oes gennych chi wybodaeth am ansawdd yr atgyfeiriadau?	<p>A oes gennych chi wybodaeth am nifer yr atgyfeiriadau a ddychwelir at feddygon teulu neu weithwyr iechyd proffesiynol eraill gan nad oeddent yn cynnwys y wybodaeth angenrheidiol, gan fod yr atgyfeiriad wedi'i anfon i'r lle anghywir neu gan nad oedd y claf yn bodloni'r meini prawf atgyfeirio?</p>
	Ydych chi'n gwybod beth yw'r rhan fwyaf o'r gweithgareddau dewisol?	<p>Dangosodd ein dadansoddiad mai dim ond 35 o weithdrefnau neu lawdriniaethau oedd i gyfrif am hanner y cyfnodau mewn ysbyty ledled Cymru yn 2012-13. Dim ond 13 o weithdrefnau sydd i gyfrif am 25 y cant o'r diwrnodau gwely ledled Cymru:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ydych chi'n gwybod pa weithdrefnau sydd i gyfrif am y rhan fwyaf o'r gweithgareddau yn y bwrdd iechyd? • Ydych chi'n gwybod pa weithdrefnau sydd i gyfrif am y rhan fwyaf o'r diwrnodau gwely? • Ydych chi'n gwybod a yw'r un cleifion yn defnyddio cyfleusterau'r ysbyty yn rheolaidd?

Y prif faterion	Cwestiynau allweddol i'w gofyn	Anogwyr a all eich helpu chi i ddeall y mater yn well
<p>A yw cynlluniau'n seiliedig ar ddealltwriaeth gadarn o gapasiti presennol y bwrdd iechyd?</p>	<p>A yw'r amcangyfrifon o gapasiti staffio a gweithgareddau yn realistig?</p>	<p>A yw cynlluniau i gyflawni targedau amseroedd aros yn cynnwys asesiad ymarferol o argaeledd? Ydyn nhw'n ystyried:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gwyliau blynyddol? • Ymrwymadau hyfforddiant? • Amcangyfrifon o salwch staff? • Swyddi gwag ac oedi neu broblemau posibl wrth recriwtio? • Parodrwydd staff y GIG i gynnal gweithgareddau ychwanegol y tu allan i oriau craidd?
	<p>A yw cynlluniau ar gyfer defnyddio cyfleusterau yn seiliedig ar ddealltwriaeth gadarn o sut maen nhw'n cael eu defnyddio mewn gwirionedd?</p>	<p>A yw templedi clinig a theatr yn gysylltiedig â gwybodaeth am y galw?</p> <p>Ydyn nhw'n paru rolau staff â'r galw (gan gynnwys defnyddio staff gofal iechyd eraill ar gyfer cyflyrau cyffredin)?</p> <p>Ydyn nhw'n cynnwys amrywiadau tymhorol yn y galw?</p> <p>Ydyn nhw'n dyrannu gwahanol apwyntiadau neu slotiau theatr yn dibynnu ar oedran cleifion a chymhlethdod eu cyflwr?</p> <p>Ydyn nhw'n cynnwys cymysgedd o slotiau brys ac arferol sy'n newid dros amser o ganlyniad i newidiadau yn y proffil brys?</p> <p>A yw cynlluniau'n cael effaith ar rannau eraill o'r system gofal wedi'i gynllunio?</p> <p>A yw cleifion sy'n aros am apwyntiad dilynol yn gorfod aros yn hirach er mwyn i gleifion newydd gael eu gweld?</p>
	<p>A yw cynlluniau'n seiliedig ar ddealltwriaeth gadarn o gapasiti gwelyau?</p>	<p>A yw cynlluniau i gyflawni targedau amseroedd aros yn gysylltiedig â chapasiti gwelyau?</p> <p>Ydych chi'n gwybod am faint mae cleifion yn debygol o aros yn yr ysbyty yn dibynnu ar eu hoedran, eu cyflwr a chymhlethdod eu cyflwr?</p> <p>A yw gwelyau dewisol wedi'u clustnodi neu a yw'n debygol y bydd cleifion brys yn eu defnyddio yn seiliedig ar ddadansoddiad o'r defnydd o welyau yn ystod y blynyddoedd blaenorol?</p> <p>A yw cynlluniau gwelyau yn seiliedig ar gyfraddau defnydd gwelyau uchel (dros 82 y cant) – sy'n golygu bod llai o hyblygrwydd os bydd cleifion yn aros yn hirach na'r disgwyl?</p>

Y prif faterion	Cwestiynau allweddol i'w gofyn	Anogwyr a all eich helpu chi i ddeall y mater yn well
<p>A yw cynlluniau'n seiliedig ar ddealltwriaeth gadarn o gostau lleihau amseroedd aros?</p>	<p>Ydych chi'n gwerthuso effaith penderfyniadau strategol ar amseroedd aros?</p> <p>Ydych chi'n gwybod faint y byddai'n ei gostio i ddarparu cynlluniau i gyflawni targedau amseroedd aros?</p>	<p>Ydych chi'n ystyried effaith y penderfyniadau canlynol ar amseroedd aros?</p> <ul style="list-style-type: none"> • Lleihau nifer y gwelyau? • Peidio â llenwi swyddi gwag? • Ymateb i bwysau yn y gaeaf neu bwysau achosion brys? <p>A oes yna ddealltwriaeth o gostau:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Sicrhau cydbwysedd cynaliadwy rhwng y cyflenwad a'r galw fel bod cleifion yn cael eu trin ar y gyfradd y maen nhw'n ymuno â'r rhestr aros? • Mynd i'r afael â'r ôl-groniad o gleifion sy'n aros dros 26 wythnos? <p>A yw'r bwrdd iechyd wedi ystyried gweithio saith diwrnod yr wythnos i sicrhau bod eu hadnoddau cyfredol yn cael eu defnyddio i'w llawn potensial?</p>
<p>A yw cynlluniau'n seiliedig ar ddealltwriaeth o'r gwersi allweddol o gynlluniau blaenorol i leihau amseroedd aros?</p>	<p>Ydych chi'n gwybod beth weithiodd yn dda mewn cynlluniau blaenorol?</p> <p>Ydych chi'n gwybod pam na weithiodd cynlluniau blaenorol cystal â'r disgwyl?</p>	<p>Ydyn nhw'n seiliedig ar asesiadau ymarferol o'r galw a chapasiti? Os na – pam hynny?</p> <p>Ydyn nhw wedi cysylltu'r galw a'r capasiti yn effeithiol gan ddefnyddio adnoddau cynllunio? Os na – pam hynny?</p> <p>Ydyn nhw wedi'u defnyddio i ddatblygu cynlluniau neu daflwybrau atgyfeirio am driniaeth?</p> <p>A gyflawnwyd y taflwybrau hyn? Os na, a oedd y wybodaeth am y galw a'r capasiti yn gadarn?</p>

Cynlluniau i wneud defnydd gwell o gapasiti presennol

- 6 Mae ein prif adroddiad yn nodi amryw o feysydd lle gallai byrddau iechyd gynyddu'r capasiti'n sylweddol i weld mwy o gleifion ac rydym yn amlinellu dulliau eraill o reoli gofal dewisol yn ein *Crynodeb o Arferion da ac Addawol*. Gall y cwestiynau isod helpu byrddau cyrff y GIG i gael gwell dealltwriaeth o ba mor effeithiol maent yn defnyddio eu capasiti:

Y prif faterion	Cwestiynau allweddol i'w gofyn	Anogwyr a all eich helpu chi i ddeall y mater yn well
Ydych chi'n datblygu ffordd o ateb y galw yn well am gost is?	Ydych chi'n gweithio gyda gofal sylfaenol i gytuno ar feini prawf atgyfeirio a llwybrau cleifion?	A yw hyn yn cynnwys meini prawf atgyfeirio ar gyfer profion diagnostig? Sut ydych chi wedi hyrwyddo'r meini prawf atgyfeirio a'r llwybrau cleifion? Ydych chi'n monitro cydymffurfiaeth â'r meini prawf atgyfeirio a'r llwybrau cleifion?
	Ydych chi'n darparu cymorth a chynghor i feddygon teulu a gweithwyr iechyd proffesiynol eraill sy'n gwneud atgyfeiriadau?	Gall hyn gynnwys cyngor trwy e-bost neu dros y ffôn neu ddefnyddio technoleg i adolygu symptomau ar ffotograffau digidol.
Ydych chi'n rheoli apwyntiadau cleifion allanol yn effeithiol?	Ydych chi wedi cymryd camau i wella gwasanaethau claf allanol?	Ydych chi wedi lleihau nifer y cleifion sy'n canslo apwyntiadau cleifion allanol (CNA) neu sy'n colli apwyntiad (DNA)? Gellid gwneud hyn trwy: <ul style="list-style-type: none"> Ddefnyddio gwasanaethau atgoffa trwy neges destun neu wasanaeth gwneud apwyntiad awtomatig. Gwella'r wybodaeth a roddir i gleifion am: <ul style="list-style-type: none"> o oblygiadau canslo neu golli apwyntiad a gwyliau hir; faint o amser y mae'n debygol y bydd rhaid iddyn nhw aros; beth i'w wneud os bydd eu hiechyd yn gwaethygu wrth iddyn nhw aros. Ydych chi wedi ad-drefnu'r ffordd mae clinigau cleifion allanol yn gweithio? Gellid gwneud hyn trwy: <ul style="list-style-type: none"> Ryddhau amser meddygon ymgynghorol trwy ddefnyddio clinigau a arweinir gan nyrsys arbenigol neu weithwyr iechyd proffesiynol eraill. Defnyddio technoleg megis telefeddygaeth i ddiagnosisio a chynghori cleifion fel nad oes angen iddyn nhw gael apwyntiad claf allanol. Gofalu bod gan y ganolfan trefnu apwyntiadau wybodaeth am brosesau ar gyfer rheoli cleifion ym mhob arbenigedd. Mae rhai byrddau iechyd yn cylchdroi staff y ganolfan fel eu bod yn datblygu dealltwriaeth o bob arbenigedd tra bod eraill yn datblygu gwybodaeth arbenigol ar gyfer aelodau staff unigol. Ydych chi wedi gwneud unrhyw beth i ddeall profiad cleifion allanol a gwneud gwelliannau o ganlyniad i hynny? Gellid gwneud hyn trwy: <ul style="list-style-type: none"> weithio gyda chynghorau iechyd cymuned neu gynrychiolwyr cleifion eraill; dadansoddi cwynion cleifion; a chael adborth gan staff y ganolfan trefnu apwyntiadau.

Y prif faterion	Cwestiynau allweddol i'w gofyn	Anogwyr a all eich helpu chi i ddeall y mater yn well
Ydych chi'n rheoli apwyntiadau cleifion allanol yn effeithiol?	Ydych chi'n gwybod a yw cleifion allanol yn cael eu rheoli'n briodol tra'u bod yn aros?	<p>A yw'r rheolau atgyfeirio am driniaeth yn cael eu rhoi ar waith yn briodol?</p> <p>A yw cofnodion cleifion yn cael eu dilysu'n rheolaidd i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r rheolau?</p> <p>Ydych chi'n cysylltu â chleifion i sicrhau eu bod nhw'n dal angen triniaeth?</p> <p>A oes yna raglenni hyfforddiant rheolaidd i sicrhau bod staff yn gwybod sut i roi'r rheolau ar waith?</p> <p>A yw Archwiliad Mewnol yn cydymffurfio â'r rheolau atgyfeirio am driniaeth?</p> <p>A yw llythyrau at gleifion yn cael eu hadolygu i sicrhau eu bod yn adlewyrchu'r amseroedd aros tebygol ar hyn o bryd?</p> <p>A oes yna drefniadau priodol ar waith i adolygu a rheoli risg i gleifion sy'n aros yn hir?</p> <p>A yw cofnodion cleifion yn cael eu hadolygu gan feddygon ymgynghorol?</p> <p>Ydych chi'n cysylltu â chleifion i weld a yw eu hiechyd wedi dirywio? Ydych chi'n cysylltu â nhw trwy lythyr, dros y ffôn neu wyneb yn wyneb?</p> <p>A yw cwynion cleifion yn cael eu hadolygu i weld a yw iechyd cleifion yn dirywio o ganlyniad i amseroedd aros hir?</p>
Ydych chi'n ystyried ffyrdd o fynd i'r afael â'r risg o 'or-driniaeth'?	<p>A oes gennych chi bolisi clir ar weithdrefnau y gwyddir nad ydynt yn effeithiol iawn i rai cleifion?</p> <p>Ydych chi'n deall ac yn rheoli amrywiad mewn cyfraddau ymyrraeth glinigol?</p> <p>Ydych chi'n datblygu ffyrdd o gynnwys cleifion mewn penderfyniadau ynglŷn â'u triniaeth eu hunain i osgoi gweithdrefnau neu lawdriniaethau diangen?</p>	<p>Ydych chi'n gwybod pa weithdrefnau nad ydynt yn effeithiol iawn i rai cleifion?</p> <p>Ydych chi'n gwybod faint o'r gweithdrefnau hyn sy'n cael eu cynnal yn y bwrdd iechyd?</p> <p>Ydych chi'n gwybod sut mae hyn yn cymharu â chyfraddau ymyrraeth ledled Cymru?</p> <p>A oes gennych chi bolisi clir yn amlinellu pryd y gellir cynnal y gweithdrefnau hyn?</p> <p>Ydych chi'n monitro cydymffurfiaeth â'r polisi hwn?</p> <p>A yw lefelau cydymffurfiaeth yn gwella/cyfraddau ymyrraeth yn gostwng?</p> <p>Ydych chi'n gwybod y rhesymau y tu ôl i ddiffyg cydymffurfiaeth?</p> <p>Beth sy'n cael ei wneud i wella cydymffurfiaeth?</p> <p>Ydych chi'n olrhain cyfraddau ymyrraeth ar draws gweithdrefnau ac yn cymharu rhwng:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Clinigwyr o fewn eich bwrdd iechyd? • Eich bwrdd iechyd a chyrrff iechyd eraill yng Nghymru a thu hwnt? • A oes yna her glir i glinigwyr – gan reolwyr a chymheiriaid clinigol – ar gyfraddau ymyrraeth? <p>Ydych chi'n ennyn ymroddiad clinigwyr mewn perthynas â manteision posibl cynnwys cleifion yn y broses o wneud penderfyniadau?</p> <p>Ydych chi'n sicrhau bod adnoddau megis fframweithiau penderfynu a thafenni cyngor ar gael i helpu clinigwyr i gynnwys cleifion?</p>

Y prif faterion	Cwestiynau allweddol i'w gofyn	Anogwyr a all eich helpu chi i ddeall y mater yn well
Ydych chi'n rheoli capasiti theatrau yn effeithiol?	A yw'r theatrau mor effeithlon ag y gallant fod?	A yw'r bwrdd iechyd wedi gwella'r ffordd mae rhestr theatr yn cael eu cynllunio i osgoi dechrau'n hwyr, ymyrraeth funud olaf ac apwyntiadau'n cael eu canslo? A yw'r bwrdd iechyd wedi lleihau cyfradd y llawdriniaethau sy'n cael eu canslo ar fyr rybudd gan yr ysbyty a gan gleifion?
Ydych chi'n rheoli arhosiad cleifion yn yr ysbyty mewn ffordd effeithlon ac effeithiol?	A oes gennych chi ddull clir a chyson o helpu cleifion i wella cyn gynted â phosibl?	Ydych chi'n defnyddio rhaglenni rheoli ffordd o fyw megis rhaglenni rhoi'r gorau i ysmegu neu reoli pwysau er mwyn gwella iechyd cleifion cyn iddyn nhw gael eu rhoi ar y rhestr llawdriniaeth er mwyn cyflymu a gwella'r gyfradd wella? Ydych chi'n defnyddio dulliau gwella ar ôl llawdriniaeth sy'n gyson ledled y bwrdd iechyd?
	Ydych chi wedi gweithio i sicrhau bod cleifion yn cael eu rhyddhau o'r ysbyty yn briodol ac yn ddi-oed?	Ydych chi'n gweithio gyda gwasanaethau cymdeithasol i leihau cyfraddau oedi wrth drosglwyddo gofal? Ydych chi wedi gwneud unrhyw beth i wella'r broses, megis nodi'r dyddiad rhyddhau yn gynnar, amseru'r gwaith o gerdded o amgylch y ward a sicrhau bod meddyginiaeth ar gael?
Os oes yna fentrau sy'n ceisio gwneud defnydd gwell o gapasiti presennol, a ydyn nhw'n gwneud gwahaniaeth?	A oes yna dystiolaeth i ddangos canlyniadau'r mentrau hyn?	A yw'r mentrau wedi creu capasiti i weld mwy o gleifion? Os na, pam hynny? A oes yna fanteision eraill, megis gwella profiad cleifion?
	A ydyn nhw'n bocedi ynysig o arferion da neu a ydyn nhw'n cael eu defnyddio ar draws y bwrdd iechyd?	A oes yna fecanwaith clir ar gyfer rhannu dysgu o fewn y bwrdd iechyd (ac o'r tu hwnt i'r bwrdd iechyd)? A oes yna dystiolaeth o syniadau yn cael eu rhannu a'u mabwysiadu/addasu mewn gwahanol rannau o'r bwrdd iechyd?

7 Gallwch lawrlwytho copïau o'r adroddiad llawn ar *Amseroedd Aros y GIG ar gyfer Gofal Dewisol yng Nghymru*, *Amseroedd Aros y GIG ar gyfer Gofal Dewisol yng Nghymru – Adroddiad Technegol a'r Crynodeb o Arferion da ac Addawol* o wefan Swyddfa Archwilio Cymru ar www.wao.gov.uk.

Wales Audit Office

24 Cathedral Road

Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk

Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk

Gwefan: www.wao.gov.uk